CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 7 MAWRTH 2017

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer -Cyng B Owen

Cynghorwyr
I C Thomas, W L Davies, W T Owen, H W Roberts, A W Bohana, M W Thomas, G Thomas, E Lovgreen, E R Hughes, T Thomas, C Williams, G Thomas, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng A Hopcyn, Cyng W R Owen, Cyng K Williams

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Orymdaith Gŵyl Dewi

3. **Datgan Buddiant Personol**

I C Thomas – cynllunio (cais rhif 5)
W T Owen – cynllunio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 21 Chwefror 2017
Clerc yn tynnu sylw i enw stryd anghywir angen newid Lon Ddewi i Lon Eilian o dan eitem 15

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir gyda'r newid (11 o blaid , 1 ymatal)

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C17/0147/14/LL **Cytuno**
Adfer a uwchraddio rhodfa mynediad
ar gyfer gwella cynefin y goedlan/

Allt Ryddallt-bach, Ffordd Pen y Bryn
Caernarfon

****

2. C17/0171/14/CC **Cytuno**
Tocio canghennau coeden ffawydden a
chastanwydden sy'n destun gorchymyn
gwarchod coed
Y Culfor, Bangor Road, Caernarfon

****

3. C17/0169/14/LL **Cytuno**
Estyniad deulawr yn y cefn ac ar yr
ochr ynghyd a chodi modurdy dwbl

Hafod, Seiont Mill Road, Caernarfon

****

4. C17/0170/14/LL **Cytuno**
Creu mynediad amaethyddol newydd

Fferm Ty'r Allt, Ffordd Pant, Caernarfon

5. C17/0140/14/LL **Cytuno**
Diddymu amond rhif 5 o ganiatâd cynllunio
C16/0239/14/LL parthed yr angen
i ddarparu safle bws

Galeri, Doc Fictoria, Caernarfon

****

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn au talu (unfrydol)

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol **)**

9. Maerolaeth 2017 – 2018

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, a'r eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. Ioan Ceredig Thomas
Y Cynigydd Cyng C Williams yn diolch am y lluniaeth arbennig gan nodi bod y Cyng Ioan Ceredig Thomas yn derbyn y swydd o Maer etholedig am y flwyddyn 2017-2018

Penderfynwyd

Llongyfarch y Cyng Ioan Ceredig Thomas (unfrydol)

10.Maerolaeth 2017– 2018

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2017 – 2018

Penderfynwyd

Enwebu Cyng Eironna Rees Hughes fel Dirprwy Faer etholedig am y flwyddyn 2017-2018 (7 o blaid, 2 ymatal)

11. Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Datganiad Newyddion

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

12.Unllais Cymru

Digwyddiad ar y cyd 12 Gorffennaf Ewloe

Penderfynwyd

Ohirio tan ar ôl etholiadau ac i gynghorwyr presennol i gofio'r dyddiad (unfrydol)

13. Llywodraeth Cymru

Ymateb Ken Skates AC
Penderfynwyd
Derbyn gyda siom (unfrydol)

14.Cymorth Cynllunio Cymru

Digwyddiad 28 Mawrth 12.30 – 4 Llandudno
Penderfynwyd
Enwau i'r clerc (unfrydol)

15.Adroddiad Blynyddol PACGA 2017

Papurau sector ni ynghlwm
Eglurodd y clerc am y digwyddiad iddi fynychu ynghyd a Cyng M Sarnacki lle roedd cynnwys y ddogfen yn cael sylw cyn i'r ddogfen orffenedig cael ei chyhoeddi

Oedd rhan fwyaf o gynghorau yn gweithredu yn debyg , ond sylw ddaeth allan yn glir oedd inni feddwl "tu allan i'r bocs" gan gofio efallai y buasai rhai elfennau o'r ddogfen yn briodol i bobl ifanc ac er bod cynghorwyr presennol ddim yn gweld yn fanteisiol , unwaith mae elfen wedi ei mabwysiadu neu ei wrthod am y flwyddyn rhy hwyr ei newid wedyn

Nodwyd hefyd yn amlwg oedd rhai elfennau ddim wedi eu cysidro wrth greu yr amcangyfrifon ac felly efallai y bydd rhaid defnyddio ychydig o'r "reserves" ar gyfer y pwrpas yma
Cafwyd trafodaeth ar y penawdau fel nodwyd isod
Penderfyniad 44 – Cynnig i dalu hyd at £150 i cyfrannau at gostau megis ffon, cysylltiad we , cafwyd sgwrs am bobl ifanc ac efallai sut fydda hyn yn medru fod o gymorth i rhai
Penderfyniad 45 – hawl i dalu hyd at £500 i 3 gynghorydd sydd a cyfrifoldebau ychwanegol
Penderfyniad 46 – hawl i dalu lwfans dinesig i'r Maer. Eglurodd y clerc y cafwyd trafodaeth eang am y gwahanol ffyrdd oedd hyn yn digwydd yn y gweithdy, gyda rhan fwyaf o lefydd yn cael yr arian o'r swyddfa yn nol y gofyn . Negeseuon clir o'r gweithdy oedd - bod angen tynnu costau pethau fel bwyd noson y Maer allan , angen ryw fath o audit trail (fydd yn cyfrinachol ir swyddfa) , oedd pawb yn hoffi ein syniad ni o gyfrif banc ar wahân. Er mai derbyn yr hawl i roi lwfans yn unig yda ni heno

fydd angen ystyried creu canllawiau clir er mwyn symyd ymlaen yn y dyfodol
Penderfyniad 47 – hawl i dalu lwfans dinesig i'r Dirprwy . Yn y gweithdy toedd neb yn gweld gwerth yn hwn gan y bydda disgwyl i'r Maer cyfrannu o lwfans nhw
Penderfyniad 48 – hawl i gostau teithio ar y graddfeydd nodedig
Penderfyniad 49 – ad dalu cynhaliaeth
Penderfyniad 50 – colled ariannol – system wedi newid a swm penodedig bellach
Penderfyniad 51 – ad dalu costau gofal

Penderfynwyd

Penderfyniad 44 – mabwysiadu gan nodi Nad oes rhaid ei hawlio (11 o blaid , 2 ymatal
(Cyrhaeddodd Cyng W T Owen am 18.34 cyn trafodaeth ar penderfyniad 45)
Penderfyniad 45 – ei wrthod (11 o blaid)
Penderfyniad 46 – mabwysiadu'r hawl i roi lwfans dinesig a'r clerc i greu templed canllawiau ar gyfer y ffordd ymlaen (11 o blaid, 2 ymatal)
Penderfyniad 47 – gwrthod (9 o blaid, 2 yn erbyn , 3 ymatal)
Penderfyniad 48 – mabwysiadu hawl i dalu costau teithio (unfrydol)
Penderfyniad 49 – mabwysiadu (unfrydol)
Penderfyniad 50 – mabwysiadu (unfrydol)
Penderfyniad 51 – mabwysiadu (unfrydol)

16.E-bost Express Motors

Ers derbyn y llythyr y clerc wedi cyfarfod ar heddlu sydd eisoes yn ymwybodol ac yn gweithredu ar y mater

Penderfynwyd

Ysgrifennu at Express Motors a nodi bod y clerc wedi trafod ar heddlu ac ein bod ni yn falch bod gweithredu wedi cychwyn i geisio datrys y broblem (unfrydol)

17. **Cwestiynau**

Dim dilys

Gorffenodd y cyfarfod am 7.05

Awyddwyd.....Dyddiad.....